mencap

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen

Cofrestru i Bleidleisio

Mae'r adran yma'n egluro sut i gofrestru er mwyn gallu pleidleisio

Cofrestru i bleidleisio

Bydd yr adran yma'n egluro beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn bod yn barod i bleidleisio.

Bydd yn egluro:

1. Cofrestru i bleidleisio
2. Pa wybodaeth sydd ei hangen i gofrestru

Cofrestru i bleidleisio

Cyn pleidleisio, mae angen i chi gofrestru. Bydd y canllaw yma'n eich helpu i gofrestru.

Mae'n bwysig eich bod chi'n cofrestru i bleidleisio. Os nad ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio, fyddwch chi ddim yn gallu pleidleisio mewn etholiad.

Gallwch gofrestru i bleidleisio ar-lein, yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Cofrestru i bleidleisio

Y wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi er mwyn gallu cofrestru i bleidleisio

Dyma'r cwestiynau bydd rhaid i chi eu hateb:

- Ym mha wlad ym Mhrydain rydych chi'n byw, neu a ydych chi'n byw mewn gwlad arall?
- Beth yw eich cenedligrwydd?
- Beth yw eich dyddiad geni?
- Beth yw eich enw llawn?
- Ydych chi wedi newid eich enw erioed?
- Beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol?
- Beth yw eich cyfeiriad?
- Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall?
- Ydych chi am i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos yn gyhoeddus ar y gofrestr etholiadol? Mae hyn yn golygu bydd modd i elusen neu fusnes weld eich gwybodaeth a'i defnyddio i gysylltu â chi neu geisio gwerthu pethau i chi. Byddwch chi'n dal i allu pleidleisio hyd yn oed os byddwch chi'n dewis 'nac ydw' ar gyfer y cwestiwn yma.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Cofrestru i bleidleisio

Pethau i'w cofio:

1. Mae angen i chi gofrestru i bleidleisio bob tro y byddwch chi'n symud tŷ

2. Mae angen i chi gofrestru eto i bleidleisio os ydych chi'n newid eich enw neu eich cyfenw

Angen help? Gallwch ddysgu mwy am bleidleisio ar wefan Mencap: **www.mencap.org.uk/get-**involved/campaigning/guides-voting

Os oes gennych chi gwestiwn neu os oes angen help arnoch chi i gofrestru, gallwch ffonio llinell gymorth etholiad Mencap ar
0207 696 6009.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Y
Comisiwn
Etholiadol

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**